| | |
|---|---|
| CYFARFOD | FFORWM CYLLID YSGOLION |
| DYDDIAD | 4 Mawrth 2019 |
| TEITL | Cyllideb Cyngor Gwynedd 2019/20 - Ysgolion |
| PWRPAS | Diweddaru er gwybodaeth |
| ARGYMHELLIAD | Derbyn yr Adroddiad |
| AWDUR | Dafydd L Edwards – Pennaeth Cyllid |
| AELOD CABINET DROS CYLLID | Y Cynghorydd Peredur Jenkins |

**YMDRIN Â'R GYLLIDEB YSGOLION YN 2019/20**

1. Wrth ddatblygu strategaeth arbedion a chyllideb drafft ar gyfer 2019/20, cytunwyd ffordd ymlaen er mwyn osgoi trosglwyddo targed arbedion pellach i ysgolion Gwynedd eto eleni.

2. Bydd y gyllideb ysgolion yn cynyddu eleni oherwydd yr addasiadau "demograffi" arferol, sy'n deillio o newidiadau yn niferoedd disgyblion. Defnyddir gwir nifer disgyblion Medi 2018 i gyfrifo dyraniadau 2019/20. Mae'r sefyllfa yn gwahaniaethu o ysgol i ysgol, ond ar y cyfan mae effaith cynnydd niferoedd disgyblion yn golygu y byddai'r gyllideb ysgolion yn ei gyfanrwydd yn codi £418k, sy'n cynnwys lleihad -£260k cynradd a cynnydd +£617k uwchradd a +£61k i'r ysgolion arbennig. Yn erbyn y cynnydd £617k eleni, mae'r sector uwchradd yn cyflawni arbediad £299k yn 2019/20, yn dilyn penderfyniad i'w ohirio am ddwy flynedd o 2017/18, pryd roedd y demograffi uwchradd yn negyddol.

3. Gwelir yn y rhan bidiau (Atodiad 2) o'r adroddiad hwn fod argymhelliad i gytuno i ariannu bidiau gwerth £593k i'r Adran Addysg, tuag at y cyllidebau cludiant (£400k) ac integreiddio (£193k), sy'n golygu y bydd cost 'Addysg' yn cynyddu'n sylweddol rhwng 2018/19 a 2019/20. Fodd bynnag, mae lleihad £247k yn dyraniadau ysgolion yn unol â'r Adolygiad Strategol Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad. Yn sicr, wedi cymryd chwyddiant dros £4m i ystyriaeth, bydd y gyllideb ysgolion dipyn uwch yn 2019/20 na lefel 2018/19.

4. Hefyd, mae yna nifer o grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru ym maes Addysg. Tra mae'n ymddangos na fydd toriad "cash" i'r grantiau hyn eleni, mae'n debyg fod y Llywodraeth ddim yn ychwanegu chwyddiant i'w grantiau. Felly, gyda costau (chwyddiant cyflog a phensiwn athrawon) yn cynyddu 5%, bydd ysgolion yn canfod sefyllfa rhai o grantiau'r Llywodraeth fel toriad mewn termau "real". Fodd bynnag, bydd ein ysgolion yn derbyn grant newydd gan y Llywodraeth ar gyfer hyfforddi athrawon.

5. Mae Llywodraeth San Steffan wedi codi cyfradd cyfrannu cyflogwyr i'r Cynllun Pensiwn Athrawon o 16.5% i 23.6% o Fedi 2019. Bydd cost hyn yn £1.6m am y 7 mis yn 2019/20, a bydd effaith blwyddyn llawn yn £2.8m erbyn 2020/21. Mae'n 7% o gost cyflogau athrawon, ond yn gynnydd 40% mewn cyfraniadau pensiwn cyflogwr.

   Wrth lunio'r gyllideb hon, rhagdybiwyd bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu'r cynnydd pensiynau athrawon 2019/20 trwy grant penodol. Yn Ionawr 2019, mae'r 'Department for Education', wedi ymgynghori gyda'r sector addysg yn sôn am ariannu'r gost (£910m) yn llawn i ysgolion Lloegr. Disgwylir dyraniad dilynol i Lywodraeth Cymru, a bydd hwnnw yn cael ei basio yn ei dro i'r awdurdodau lleol, ac wedyn i'r ysgolion.

   Os bydd dim ariannu trwy grant penodol, neu os bydd y grant yn bell o fod yn ddigonol, adeg hynny bydd y Cyngor yn ail ymweld â hyn a thrafod ag ysgolion sut i ddelio gyda'r pwysau un-tro yn 2019/20.

adroddiad llawn ar y gyllideb i'r Cabinet 19/02/2019 –
https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/mgAi.aspx?ID=13592#mgDocuments&LLL=1